# GORCHYMYN CREU LLWYBR CYHOEDDUS

## DEDDF PRIFFYRDD 1980

## CYNGOR BRO MORGANNWG

## (LLWYBR CEFFYLAU CYHOEDDUS RHIF·72 GWENFÔ)

## GORCHYMYN CREU LLWYBR CYHOEDDUS 2025

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ("yr Awdurdod") o dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod, o ystyried y materion a nodwyd yn Adran 26(1), fod angen llwybr ceffylau cyhoeddus dros y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef, ac y byddai creu'r llwybr yn fuddiol.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn Fferm Whitehall, Gwenfô, a ddangosir gan linell doredig drwchus ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn cael ei chreu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Er y Gorchymyn hwn, bydd gan unrhyw ymgymerwr statudol sydd ag offer yn y tir, ar y tir, dros y tir, ar hyd y tir neu ar draws y tir y cyfeirir ato ym mharagraff 1 at ddiben cyflawni eu hymgymeriad yr un hawliau o ran yr offer ag yr oedd ganddynt yn union cyn dyddiad creu'r llwybr ceffylau.

3. Bydd yr hawliau a roddir i'r cyhoedd dan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn Rhan 2 yr Atodlen.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** 19265

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**yma**

**ar** 14eg o Hydref **2025**

**ym mhresenoldeb:**

**Victoria Davidson**
**Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Justine Cass**
**Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol**

**ATODLEN**

**RHAN 1 –**


**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR I GAEL EI GREU**

| Rhan o'r llwybr neu'r ffordd fel y'i dynodir | Lleoliad | Hyd | Lled |
|---|---|---|---|
| **A – B – C – D – E Llwybr Ceffylau Gwenfô Rhif 72** | Yn cychwyn wrth y gyffordd â Llwybr Troed Rhif 30 Gwenfô ym mhwynt A (NGR 311911 173302) ac yn mynd tua'r gorllewin gan fynd heibio i'r de o ffens perimedr Chwareli Whitehall i bwynt B (NGR 311664 173290). Mae'r llwybr yn troi tua'r gogledd-orllewin i fwlch yn ffin y cae ym mhwynt C (NGR 311662 173292) ac yna'n parhau tua'r gorllewin yn gyfochrog â ffin ogleddol trac mynediad y fferm i gât ceffylau ym mhwynt D (NGR 311565 173273) cyn troi tua'r de-orllewin gan ddod i derfyn ym mhwynt E (NGR 311558 173268). | 410 metr | 3 metr |

**RHAN 2 – CYFYNGIADAU AC AMODAU**

| | |
|---|---|
| **A – B – C – D – E**<br>**Llwybr Ceffylau**<br>**Gwenfô Rhif 72** | Pwynt C (NGR 311662 173291) bwlch BS570<br>Pwynt D (NGR 311565 173273) gât ceffylau BS5709 |

Deddf Pryffyrdd 1980, Adran 26 - Creu Llwybr Ceffylau Cyhoeddus
Highways Act 1980 Section 26 - Creation of Public Bridleway




**L'w creu - Llwybr Ceffylau**
**To be created - Bridleway**

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
**Public Rights of Way**

- Llwybr Troed / Footpath
- Llwybr Ceffylau / Bridleway
- Cilffordd Gyfyngedig / Restricted Byway

AO / OS: 311737 173329

Garddfa / Scale: 1:2500

Dyddiad / Date: 13.09.2023

© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023424